# PAPURAU BUSNES

## Rhan 1 – Adran G

## Rhybudd o Gynigion ar gyfer Dadl yn y Dyfodol

## Cynigion heb Ddyddiad Trafod a Gyflwynwyd ar 18 Rhagfyr 2000

**NNDM501 Christine Gwyther (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro)**

Mae’r Cynulliad yn cytuno i gyfarwyddo Gweinidog yr Amgylchedd i gyflwyno is-ddeddfwriaeth, a fydd yn diwygio Gorchymyn Mathau Dosbarthiadau Defnydd 1987 i eithrio storio deunydd ymbelydrol o Ddosbarth B8 (Storio a Dosbarthu).

Amcan hyn yw sicrhau na fydd cynigion yn y dyfodol ar gyfer cyfleusterau storio a dosbarthu yn caniatáu storio deunydd ymbelydrol oni wneir cais am ganiatâd cynllunio yn benodol at ddiben o’r fath a bod y cais hwnnw yn llwyddiannus.